**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

27 Ebrill 2020

Annwyl Dai,

**COVID-19 a Chwaraeon**

Bydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn craffu ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig ac effaith COVID-19 ar feysydd o fewn ein cylch gwaith. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn gobeithio holi'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ynghylch cymorth i sefydliadau sydd o fewn ei gylch gwaith.

O ystyried y berthynas rhwng chwaraeon a diwylliant, ac er mwyn gwneud y defnydd gorau o amser a lleddfu pwysau ar eich Pwyllgor, a fyddech yn fodlon i'n Pwyllgor graffu ar waith y Dirprwy Weinidog ynghylch effaith COVID-19 ar faterion chwaraeon o ran y cysylltiad â diwylliant?

Os felly, allwch chi gysylltu â'm Clerc erbyn 4 Mai, i roi digon o amser inni baratoi ar gyfer y sesiwn?

Rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi galwad am dystiolaeth i bob sefydliad o fewn ein cylch gwaith i asesu effaith tymor hwy y pandemig ac agwedd y Llywodraeth tuag at ddarparu cymorth. A fyddech yn fodlon inni gynnwys effaith COVID-19 ar chwaraeon yn ein galwad am dystiolaeth?

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau gan fy mod yn deall bod effaith economaidd digwyddiadau chwaraeon yng Nghymru yn rhan o gylch gwaith ei Bwyllgor.

Yn gywir,

Helen Mary Jones

**Cadeirydd y Pwyllgor**

cc. Russell George AC

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**
—
Welsh Parliament
**Health, Social Care and Sport Committee**

**Helen Mary Jones AS**

**Cadeirydd**

**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

14 Mai 2020

Annwyl Helen Mary

**COVID-19 a Chwaraeon**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Ebrill yn ymwneud â Covid-19 a chwaraeon.

Ystyriodd y Pwyllgor y llythyr yn ei gyfarfod diwethaf ac mae'n fodlon â'r dull rydych wedi'i amlinellu.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn parhau i'n diweddaru am unrhyw ddatblygiadau yn y maes hwn wrth i chi symud ymlaen â'ch ymchwiliad.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AS
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
0300 200 6565